

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Fersiwn Un, Dyddiad: 27/03/2025

Cyflwyniad

Yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymru Iachach*¹, amcan sylfaenol y diwygiad hwn yw cefnogi lles corfforol a meddyliol pob dinesydd yng Nghymru drwy sicrhau bod ein gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel, yn effeithiol ac yn hygyrch i bawb. Mae sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau hyn er budd pawb yng Nghymru, p'un a oes gennym nodwedd warchodedig ar hyn o bryd ai peidio, gan y bydd pob un ohonom yn defnyddio gwasanaethau'r GIG ar adegau penodol yn ein bywydau.

Mae unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig yn debygol o gysylltu â gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol o ganlyniad i'w nodwedd warchodedig², ac nid yw deintyddiaeth yn eithriad yn hynny o beth. Datgelodd tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Chweched Senedd mai pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n profi'r baich mwyaf o ran clefyd deintyddol. Mae cysylltiad cryf a chyson iawn rhwng statws economaidd-gymdeithasol (incwm, galwedigaeth a lefel addysgol) a pha mor gyffredin a difrifol yw clefydau a chyflyrau'r geg³. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried y gydberthynas rhwng byw mewn ardal ddifreintiedig a bod â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru⁴:

- **Rhyw:** Mae menywod ychydig yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig na dynion.

¹Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: Ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg, Mawrth 2019
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/ymateb-gwasanaethau-deintyddol-ac-iechyd-y-geg.pdf>

²Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Ebrill 2018
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cymru-iachach-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb.pdf>

³Sefydliad Iechyd y Byd: Global oral health status report: towards universal health coverage for oral health by 2030, Tachwedd 2022.
<https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/oral-health>

⁴Llywodraeth Cymru: Dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig yn ôl amddifadedd ardal 2017 i 2019, Tachwedd 2020
<https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-nodweddion-gwarchodedig-yn-ol-amddifadedd-ardal-2017-i-2019>

- **Oedran:** Mae pobl iau, yn enwedig y rhai dan 24 oed, yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, gyda chanran uwch o fenywod ifanc yn yr ardaloedd hyn.
- **Ethnigrwydd:** Mae pobl Ddu, Asiaidd, a Lleiafrifol Ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, yn enwedig pobl Ddu, sy'n fwy na dwywaith yn fwy tebygol na phobl Wyn o fyw yn yr ardaloedd hyn.
- **Anabledd:** Mae unigolion anabl hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, gan ffurfio traean o'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- **Hunaniaeth Rywiol:** Mae unigolion LHDTG+ ychydig yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig o'i gymharu â phobl heterorywiol.
- **Crefydd:** Mae Mwslimiaid yn llawer mwy tebygol na Christnogion o fyw mewn ardaloedd difreintiedig, er bod Mwslimiaid yn ffurfio cyfran lai o'r boblogaeth.
- **Statws Priodasol:** Mae pobl sengl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig o'i gymharu ag unigolion priod.

Mae'r Asesiad hwn o Effaith ar Gydraddoldeb yn archwilio effaith y diwygiadau arfaethedig i'r contract deintyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gyfrannu at Gymru decach a mwy cyfartal. Rydym yn diffinio anghydraddoldebau iechyd y geg fel gwahaniaethau mewn lefelau iechyd y geg y gellir eu hosgoi ac sy'n cael eu hystyried yn annheg, annerbyniol ac anghyfiawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) i gynnig gwell gofal i gleifion drwy wella mynediad, camau atal, ansawdd a monitro contractau. Rydym yn rhagweld y bydd y diwygiadau arfaethedig, sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn uniongyrchol trwy drosglwyddo i ddull sy'n seiliedig ar risg ac anghenion, yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn deall bod gwên iach yn gwneud cyfraniad pwerus at les person ar lefel gorfforol a seicolegol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio iechyd y geg fel cyflwr sydd nid yn unig yn galluogi unigolion i gyflawni swyddogaethau hanfodol fel bwyta, anadlu a siarad, ond sydd hefyd yn atgyfnerthu agweddau seicolegol fel hunanhyder, lles a'r gallu i gymdeithasu a gweithio heb boen, anghysur ac embaras.⁵

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau deintyddol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn. Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb drafft hwn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad deuddeg wythnos sy'n amlinellu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio gwasanaethau deintyddol mewn gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad, sy'n agored i'r cyhoedd a'r proffesiwn deintyddol, yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r farn am sut y gallai'r rheoliadau newydd effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn llywio fersiynau o'r asesiad effaith hwn yn y dyfodol.

⁵ Sefydliad Iechyd y Byd: Iechyd y Geg

https://www.who.int/health-topics/oral-health#tab=tab_1

Mae diwygio contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol *Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru*. Mae'r cynllun hwn yn gosod ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf, ynghyd â chymau gweithredu allweddol ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r diwygiad deintyddol arfaethedig yn cefnogi amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys yr amcanion sy'n nodi ein bod eisiau creu Cymru lle:

1. **Gall pawb ffynnu a ble gallwn leihau tlodi** trwy wella'r canlyniadau i deuluoedd incwm isel
2. **Mae pawb yn gwybod am y gwasanaethau ac yn gallu eu defnyddio, gan dderbyn yr un gefnogaeth o ansawdd uchel** trwy gael gwared â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau a chael y gorau ohonynt.
3. **Mae gan bawb gyfleoedd teg a chyfartal o ran cyflogaeth a'u bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith** trwy sicrhau nad oes unrhyw fylchau cyflog a chael gwared â'r rhwystrau sy'n atal staff rhag cyrraedd eu nodau

Ar ben hynny, mae'r ymgynghoriad ar Ddiwygio Deintyddol yng Nghymru yn cefnogi creu Cymru lle mae pawb yn gwybod am y gwasanaethau, yn gallu eu defnyddio, ac yn cael yr un cymorth o ansawdd uchel. Mae'r ymgynghoriad hwn yn sicrhau bod gan bawb gyfle i roi barn am sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cefnogi.

Effeithiau Anfwriadol ar Gydraddoldeb o dan y model Uned o Weithgaredd Deintyddol (UDA) cyfredol

Mae Llais, corff llais y dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi canfod mai plant, pobl hŷn, pobl feichiog, a phobl ag anableddau sy'n profi'r anawsterau mwyaf i gael gafael ar wasanaethau deintyddol⁶. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i adolygu'r system bresennol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad.

Mae'r system bresennol yn gweithredu ar fodel Uned o Weithgaredd Deintyddol. Mae Uned o Weithgaredd Deintyddol yn uned o weithgaredd sy'n cynrychioli swm penodol o waith deintyddol. Dyrennir nifer penodol o Unedau o Weithgaredd Deintyddol i bob triniaeth yn seiliedig ar ei lefel o gymhlethdod. Gall practis gadw ei gyllid GIG ar ôl cyflawni nifer targed o Unedau o Weithgaredd Deintyddol. Mae'r model hwn yn seiliedig ar dargedau ac yn ffafrio triniaethau cyflym ac arferol, a gallai hyn olygu yn y pen draw nad oes ysgogiad i bractisau gymryd cleifion newydd na rhoi sylw i'r rhai gydag anghenion mwy cymhleth a brys. Mae'r model presennol yn seiliedig ar weithgaredd yn unig ac nid yw'n ystyried anghenion unigryw unigolion, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig, pan fyddant yn cysylltu gyntaf. Mae

⁶ Llais: Ein safbwynt ar fynediad at Ddeintyddiaeth yng Nghymru, Tachwedd 2024

<https://www.llaiscymru.org/sut-mae-eich-adborth-yn-helpu/ein-safbwynt-ar-fynediad-ddeintyddiaeth-yng-nghymru>

hyn yn atal datblygu llwybrau a phecynnau gofal clir ar gyfer cleifion gyda llawer o anghenion.

Mae [gwaith ymchwil](#)⁷ gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ar yr effaith ar fynediad i gleifion gyda llawer o anghenion yng Nghymru wedi dod i'r casgliad bod y model Uned o Weithgaredd Deintyddol yn effeithio'n andwyol ar gleifion gyda llawer o anghenion, gan amlinellu:

“The current dental contract creates an inverse care law. A dentist facing clawback could have worked longer hours and helped more patients with challenging ailments than a dentist who had completed their UDA targets ... One dentist could earn 20 UDAs in five hours from 20, ten-minute examinations of healthy patients. Another dentist could earn three UDAs in five hours completing several extractions, fillings and root canals for a single patient with poor oral health. This means that patients with higher dental needs are a disadvantage to a dentist because practices are under intense pressure to hit their UDA targets, resulting in insufficient time to treat high needs patients. Over 90% of dentists say they believe that the 2006 contract has limited their capacity to treat patients with high needs.”

Mae'r cyfyngiadau o safbwynt trin cleifion sydd ag anghenion uwch yn deillio o sawl ffactor

- **Capasiti:** Lle mae practisau yn gweithio ar gapasiti llawn gyda'u cleifion presennol, gallai derbyn cleifion newydd a allai fod angen mwy o amser arnynt leihau nifer yr Unedau o Weithgaredd Deintyddol a gwblheir mewn diwrnod, gan effeithio ar incwm y practis. Yn dilyn y pandemig, efallai y bydd cynnydd hefyd yn yr angen am driniaeth ar gyfer cleifion hanesyddol. Lle mae'r angen am driniaeth wedi cynyddu, mae'r pwysau ar gapasiti hefyd wedi cynyddu. Mae hyn yn creu cymhelliant ar gyfer gweld mwy o gleifion risg isel.
- **Anghydraddoldebau Daearyddol:** Efallai y bydd gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lai o bractisau deintyddol i ddewis ohonynt, gyda'r system Unedau o Weithgaredd Deintyddol yn cyfyngu mynediad ymhellach. Gall practisau mewn ardaloedd gwledig sy'n derbyn cleifion newydd y GIG beryglu mynd dros y cap ar gyfer yr Unedau o Weithgaredd Deintyddol a gallai hynny yn ei dro eu hannog i beidio â derbyn cleifion newydd, yn enwedig rhai gyda llawer o anghenion. Yn ogystal, mae poblogaethau mewn ardaloedd gwledig yn aml yn profi mwy o angen, gan ei bod yn gymharol llai economaidd i drin y cleifion hyn. O ganlyniad, mae practisau yn llai tebygol o ymsefydlu mewn ardal sydd ag incwm economaidd-gymdeithasol is.

⁷ Cymdeithas Ddeintyddol Prydain: NHS general dentistry in Wales: evaluation of patient access and budget expenditure, Mehefin 2019

<https://www.morgannwgldc.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Item-8d-BDA-paper-on-NHS-Dentistry-in-Wales.pdf>

- **Anfantais Economaidd-gymdeithasol:** Mae'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio dewis gofal deintyddol preifat yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y gallant gael trafferth dod o hyd i ddeintydd sy'n ymgymryd â chleifion newydd y GIG. Mae hyn yn waeth mewn ardaloedd lle mae galw uchel.

Dadansoddiad o effeithiau'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol newydd ar gydraddoldeb

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amlinellu bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu disgrifio fel ardaloedd difreintiedig o safbwynt cymdeithasol ac economaidd yn aml yn wynebu'r risg uchaf o brofi problemau gydag iechyd y geg⁸. Canfu adroddiadau diweddar gan Raglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru fod nifer yr achosion o blant 5 oed sydd â dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi wedi gostwng o 47.6% yn 2007/08 i 32.4% yn 2022/23⁹. Mae'r difrifoldeb, sef nifer cyfartalog y dannedd sydd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi, fesul plentyn, wedi gostwng o 1.98 i 1.11 yn yr un cyfnod. Er gwaethaf y duedd gadarnhaol hon, mae'r achosion o ddannedd pydreidig, coll neu wedi'u llenwi yn parhau i fod yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd gyda'r lefel uchaf o amddifadedd. Mae'r gyfradd achosion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 43.4% o'i gymharu â 20.7% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

O ystyried y gydberthynas rhwng byw mewn ardal ddifreintiedig a nodweddion gwarchodedig, mae'r data hwn yn tynnu sylw at yr angen i wella mynediad at ddeintyddiaeth gofal sylfaenol i wella dulliau atal yn y gymuned, yn enwedig i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Trwy flaenoriaethu camau atal ac ymgorffori dull sy'n seiliedig ar risg, mae'r cynnig i ddiwygio'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn ymarferol, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy greu llwybrau cliriach a sicrhau ymyrraeth amserol cyn i broblemau deintyddol waethygu.

Y Model Talu

Mae'r contract newydd yn cynnig bod y model Unedau o Weithgaredd Deintyddol presennol yn cael ei ddisodli gan fodel talu newydd i sicrhau dull tecach a mwy tryloyw o dalu ar gyfer practisau. O dan y model talu, mae gwerthoedd wedi cael eu pennu i driniaethau penodol (pecynnau gofal), ac mae'n rhaid i bractisau ddarparu'r triniaethau hyn i lefel y cytunwyd arno (segmentu contract, a drafodir isod). Gellir

⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Iechyd y geg ymysg oedolion

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/iechyd-y-geg-ymysg-oedolion/>

⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cyfraddau pydreidd dannedd mewn plant yng Nghymru yn gostwng, ond mae materion yn parhau, Chwefror 2024

<https://icc.gig.cymru/newyddion1/cyfraddau-pydredd-dannedd-mewn-plant-yng-nghymru-yn-gostwng-ond-mae-materion-yn-parhau/>

gweld y dadansoddiad costau arfaethedig ar gyfer pecynnau gofal yn Atodiad A, **er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto hyd nes y daw canlyniadau'r ymgynghoriad.**

Mae'r strwythur talu ar gyfer pecyn gofal yn cynyddu'r safoni sy'n sicrhau bod practisau yn cael eu digolledu'n deg am wasanaethau. Maent yn ei gwneud yn haws gweld y cysylltiad rhwng y gwasanaethau a ddarperir a'r taliadau a dderbynnir. Lle mae'r model Unedau o Weithgaredd Deintyddol yn rhoi blaenoriaeth niweidiol i nifer fawr o driniaethau symlach, gellir teilwra pecynnau gofal i ymateb i anghenion penodol cleifion trwy roi gwerth uwch ar driniaeth fwy cymhleth. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn gwella mynediad i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau, gydag ymchwil yn canfod bod is-grwpiau difreintiedig yn parhau i brofi lefelau cymharol uwch o glefyd¹⁰.

Mae'r Raddfa Ffioedd o dan y model talu arfaethedig yn rhoi gwerth uwch ar Becynnau Gofal a ddarperir i blant er mwyn rhoi cymhelliant i ddefnydd plant o'r gwasanaeth, monitro parhaus a chymorth ataliol. Pe bai plentyn angen triniaeth ymyrryd weithredol, byddai'n trosglwyddo i becyn gofal gyda'r un taliad sy'n berthnasol i oedolyn.

Costau i'r Claf

Yn gyntaf, nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r hawl i dderbyn archwiliadau a thriniaethau deintyddol y GIG am ddim ar draws grwpiau penodol. Mae hyn yn cynnwys plant, oedolion hŷn, pobl feichiog, y rhai ar incwm isel, a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau penodol. Mae rhagor o wybodaeth am hawl ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#)

Nod y model newydd yw blaenoriaethu'r rhai ag anghenion clinigol uwch, y mae llawer ohonynt wedi'u heithrio rhag talu. Mae hyn yn cynorthwyo i hyrwyddo cydraddoldeb iechyd trwy sicrhau bod adnoddau yn seiliedig ar angen clinigol yn hytrach na'r gallu i dalu. Gall llawer o gleifion ag anghenion deintyddol cymhleth a brys dderbyn triniaeth angenrheidiol heb wynebu rhwystrau o ran y gost, lle gallant fod wedi cael eu hatal gan gyfyngiadau ariannol o ganlyniad i ddiffyg mynediad o dan y model blaenorol a'r angen posibl i ddefnyddio llwybrau preifat. Mae hyn yn hybu mwy o gydraddoldeb iechyd trwy sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn seiliedig ar angen clinigol yn hytrach na'r gallu i dalu, gan sicrhau mynediad teg i bawb.

Ar hyn o bryd mae taliadau cleifion wedi'u rhannu'n bedair lefel (Band 1, Band 2, Band 3, a Brys). Mae'r lefelau presennol yn cynrychioli'r cleifion sy'n talu 61-66% o'r taliad a wneir i bractisau ar gyfer Bandiau 1-3 a 76% ar gyfer y band brys. Nod y

¹⁰ Richards, W., Ameen, J., Coll, AM a Filipponi, T: The balance between oral health needs and supply induced demand in welsh dental services, Ionawr 2021
<https://mbmj.org/index.php/ijms/article/view/368#:~:text=A%20proportion%20of%20the%20general,by%20increasing%20dental%20workforce%20alone.>

diwygiadau contract yw safoni ffioedd y cleifion i 60-70% o gost pecyn gofal, ac eithrio pecynnau gofal lle mae angen offer deintyddol. Cost offer deintyddol ac eitemau labordy (fel coronau, dannedd gosod a phontydd). Byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithredu uchafswm cost i'r claf fel y gwneir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd wedi'i osod ar £380. Ceir dadansoddiad o'r strwythur arfaethedig yn Atodiad A.

O dan y system newydd arfaethedig, efallai y bydd rhai cleifion yn talu ychydig yn fwy am archwiliadau arferol a gofal brys tra gallai eraill dalu llawer llai am driniaethau cyffredin fel llenwadau unigol, tynnu dant, a choronau unigol. Yn yr achosion prin lle mae gwahaniaeth sylweddol, fel triniaeth sianel y gwreiddyn ar ddant blaen neu gefn yn ogystal â choron ar yr un dant molar (llai nag 1%), gall y costau hyn effeithio ar y rhai nad ydynt yn gymwys i gael eu heithrio rhag taliadau deintyddol y GIG o drwch blewyn yn unig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y costau i gleifion yn y ddogfen ymgynghori.

Segmentu Contract

Mae'r model newydd yn cyflwyno segmentau i Werth Contract Blynnyddol i sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at feysydd penodol o angen, gan greu system fwy teg trwy hyrwyddo gofal cynhwysfawr ac ataliol. Mae hwn yn newid sylweddol o'r contract gwreiddiol, lle mae taliadau'n seiliedig ar nifer yr Unedau o Weithgaredd Deintyddol a gwblhawyd. Mae segmentu'r contract yn hybu cydraddoldeb fel a ganlyn:

- **Triniaeth Frys i Gleifion Newydd (10%)**

Galluogi'r rhai sydd ag anghenion deintyddol brys a difrifol i gael gofal prydlon gan y GIG. Mae hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar, neu'r nifer sy'n osgoi, y gwasanaethau preifat, sy'n llai hygyrch i grwpiau bregus. Mae hyn yn gwella canlyniadau iechyd a lles o safbwynt atal iechyd y geg rhag gwaethygu.

- **Asesiadau Cleifion Newydd (10%)**

Sicrhau bod practisau yn cael eu cymell i gymryd cleifion GIG newydd, lle mae gwaith ymchwil¹¹ wedi canfod bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu mynediad anghyfartal i ddeintyddiaeth. Trwy ddefnyddio'r Porth Mynediad Deintyddol, mae'r segmentiad hwn yn sicrhau bod cleifion newydd, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu hintegreiddio'n systematig i'r system ofal trwy gael gwared â gallu practis i ddewis y math o glaf y maent yn darparu gofal iddo. Mae hyn yn

¹¹ Llais: Mae Llais yn galw am weithredu ar frys i sicrhau mynediad teg i bawb, Tachwedd 2024
<https://www.llaiscymru.org/newyddion-ac-adroddiadau/newyddion/argyfwng-gofal-deintyddol-yng-nghymru-mae-llais-yn-galw-am>

cefnogi ymyrraeth ataliol trwy nodi a mynd i'r afael â phroblemau deintyddol yn gynnar a lleihau anghydraddoldebau hirdymor.

- **Pecynnau Gofal (70%)**

Gyda'r rhan fwyaf o gyllid wedi'i ddyrannu i becynnau gofal, gall practisau ganolbwyntio ar ddarparu triniaeth weithredol a monitro parhaus i'r rhai sydd ei angen. Mae hyn yn elfen bwysig ar fynediad parhaus, lle bydd cleifion risg uchel yn cael eu gweld gan yr un practis i sicrhau gofal cydgysylltiedig wedi'i bersonoli. Mae'r cysondeb hwn yn llai pwysig i gleifion risg isel sy'n gysylltiedig â gwiriadau rheolaidd, fel yr adlewyrchir yn y diagram Llif Cleifion (Atodiad B).

- **Atal (5%)**

Mae strategaethau ymyrraeth gynnar fel rhoi fflworid, cyfnodau galw'n ôl wedi'u teilwra, ac addysg gynhwysfawr ar iechyd y geg yn lleihau'r risg o driniaethau lefel uwch neu frys. Mae cynnwys atal o fewn y broses segmentu yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd ceg gwael a lleihau'r angen am ymyriadau mwy cymhleth a chostus. Mae hyn yn y bôn yn symud ffocws y gofal oddi ar yr unigolyn i lefel y boblogaeth, sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghyfartaledd iechyd trwy sicrhau bod gofal ataliol yn cyrraedd pob segment o'r boblogaeth.

- **Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol (5%):**

Mae'r maes hwn yn ymgorffori cyllid i fentrau Gwella Ansawdd a hunanasesiad blynyddol sy'n sicrhau bod practisau yn gwella safon y gofal maent yn ei roi i bob claf yn barhaus. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gefnogi practisau mewn ardaloedd sy'n dangos angen uwch na'r angen canolog, gan gefnogi cynaliadwyedd practisau mewn ardaloedd lle mae'r risg i'r busnes fel arfer yn uwch.

Mae ardaloedd segmentu contract yn amrywio yn ôl proffil y practis a'r angen am roi mynediad i gleifion newydd mewn lleoliad penodol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Segmentu Contract yn y Ddogfen Ymgynghori ar Ddiwygio Deintyddol.

Llif Cleifion:

Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2020 mai'r prif reswm dros beidio â defnyddio gwasanaethau deintyddol y GIG oedd nad oedd practisau lleol y GIG yn derbyn cleifion newydd¹². Yn sgil rhoi trefniadau amrywio ar waith ym

¹² Iechyd Cyhoeddus Cymru: Arolwg cyhoeddus i lywio'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru: canfyddiadau allweddol, Tachwedd 2020

mis Ebrill 2022 cafodd mecanwaith y 'Porth Mynediad Deintyddol' ei weithredu i sicrhau mynediad gwarantedig i wasanaethau deintyddol y GIG i'r rhai nad ydynt eisoes yn y system ddeintyddol. O dan y contract deintyddol newydd, y Porth Mynediad Deintyddol fydd yr unig fecanwaith lle bydd cleifion newydd yn gallu cael mynediad at ofal arferol. Nid yw'r Porth Mynediad Deintyddol yn dyrannu apwyntiadau brys, a bydd gan Fyrddau Iechyd eu trefniadau eu hunain ar gyfer rheoli llif cleifion, ar y cyd â GIG111 ar gyfer mynediad brys y tu allan i oriau. Bydd byrddau Iechyd yn dyrannu cleifion o'r porth i bractisau deintyddol wrth i apwyntiadau ddod ar gael. Mae dyraniad trwy'r Porth Mynediad Deintyddol yn lleihau'r annhegwch o ran mynediad i gleifion, yn cyflwyno tegwch i system gymhleth (lleihau anghydraddoldebau) ac yn cefnogi practisau deintyddol i gyflawni mesurau eu contractau.

Ar ôl cofrestru ar gyfer y Porth Mynediad Deintyddol, bydd person yn cael ei neilltuo i bractis. Bydd asesiad claf yn cael ei wneud ar y person hwn. Os nad oes angen triniaeth (claf risg isel/gwyrdd), bydd y person yn cael ei alw'n ôl ymhen 18 – 24 mis. Os oes angen triniaeth neu fonitro mwy rheolaidd, bydd gan y claf hwn berthynas barhaus â phractis nes bod ei statws risg yn gostwng ac yn parhau i fod yn sefydlog. Mae hyn yn gwella llif cleifion trwy bractisau, gan gynyddu'r siawns y bydd cleifion risg uchel yn gallu cael eu cynnwys yn y system. Mae Atodiad B yn amlinellu'r llwybr newydd ar gyfer cleifion o dan y model newydd arfaethedig.

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn rhoi cyfle i egluro perthynas cleifion gyda phractis deintyddol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y berthynas yn seiliedig ar risg ac angen o safbwynt Iechyd y geg, gan olygu bod y cyllid ar gyfer deintyddiaeth y GIG yn gallu cael ei ddyrannu i'r rhai sydd fwyaf ei angen. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, lle mae'n debygol bod risg uwch o ran Iechyd y geg sy'n gofyn am driniaeth weithredol a pharhau i fonitro. Ar ben hynny, mae cyflwyno'r Porth Mynediad Deintyddol yn sicrhau y gall unigolion nad ydynt eisoes yn y system gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG heb yr anghyfleustra o orfod canfod apwyntiad ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau buddiol i unigolion â nodweddion gwarchodedig sydd wedi cael trafferth cael mynediad at wasanaethau, megis teuluoedd incwm isel, plant, oedolion hŷn, y rhai sy'n pryderu am gostau ariannol neu sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

Bydd yr wybodaeth a gesglir gan y Porth Mynediad Deintyddol yn rhoi dealltwriaeth glir i fyrddau Iechyd o'r angen yn eu hardal ac yn eu galluogi i reoli'r broses o ddyrannu pobl i bractisau deintyddol. Mae hyn yn dileu'r angen i'r cyhoedd gysylltu â sawl practis ac yn creu system fynediad fwy teg.

Bydd y practisau deintyddol yn gallu rheoli eu llif cleifion trwy dderbyn cleifion newydd o'r Porth Mynediad Deintyddol, gan ddefnyddio eu capasiti clinigol yn

effeithiol. Yn ôl disgresiwn y bwrdd iechyd lleol, bydd cyfle i addasu nifer y cleifion newydd a'u hadolygu gan ddibynnu ar anghenion y boblogaeth leol, a fydd yn rhoi stop ar effaith y felin draed glinigol a geir gan y system Uned o Weithgaredd Deintyddol bresennol.

Cleifion Anghenion Uchel:

Ystyrir bod gan gleifion anghenion uchel pan fo angen 10 ymyrraeth neu fwy arnynt, gan gynnwys triniaeth endotonteg. Yn aml, mae gan y cleifion hyn broblemau meddygol, deintyddol neu seicogymdeithasol cymhleth a allai ofyn am driniaeth fwy helaeth, er bod prinder data sy'n caniatáu diffiniad clir o'r grŵp hwn.

Effaith fwyaf claf ag anghenion uchel yw'r amser sydd ei angen i gyflawni'r holl ofal angenrheidiol. O dan y contract newydd, pan fo claf yn cael ei nodi fel claf anghenion uchel yn dilyn asesiad brys neu gychwynnol, bydd yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol neu'r llwybr Gwasanaethau Deintyddol Personol. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u cynllunio i roi gofal arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth, o fewn cyfleusterau clinigol priodol a lle nad yw cyfyngiadau amser yn effeithio arnynt¹³. O dan rai amgylchiadau mae hyn hefyd yn hwyluso triniaeth dan anesthetig neu dawelydd i gleifion pryderus, gwasanaeth nad yw ar gael yn rhwydd mewn practisau deintyddol. Mae hyn yn cynyddu'r cyfle i'r grŵp hwn o gleifion fynd i'r afael â'u hanghenion iechyd y geg mewn modd symlach.

Wrth aros i'r atgyfeiriad gael ei gwblhau, mae strwythur ffioedd y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn galluogi'r practis i gynnig cwrs o driniaeth sefydlogi. Mae hyn yn rhoi sylw i faterion iechyd deintyddol uniongyrchol, yn enwedig lleddfu poen, gan eu paratoi ar gyfer triniaeth yn y dyfodol. Unwaith y bydd y claf wedi derbyn ei driniaeth trwy'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol / Gwasanaethau Deintyddol Personol ac yn iach o safbwynt deintyddol, gallai ailymuno â'r system Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol drwy'r Porth Mynediad Deintyddol i barhau i dderbyn gofal deintyddol angenrheidiol.

Wrth nodi a chyfeirio cleifion anghenion uchel at lwybrau arbenigol, mae'r diwygiadau arfaethedig yn sicrhau bod y rhai sydd â phroblemau deintyddol sylweddol yn derbyn y gofal priodol¹⁴. Mae'r llwybr y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol mewn sefyllfa i gymryd rôl flaenllaw wrth ofalu am y bobl fwyaf agored i

¹³Llywodraeth Cymru: Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl sy'n Agored i Niwed

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/rol-y-gwasanaeth-deintyddol-cymunedol-a-gwasanaethau-i-bobl-syn-agored-i-niwed_0.pdf

¹⁴Llywodraeth Cymru: Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl sy'n Agored i Niwed, Ionawr 2022

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/rol-y-gwasanaeth-deintyddol-cymunedol-a-gwasanaethau-i-bobl-syn-agored-i-niwed_0.pdf

niwed, sy'n aml mewn mwy o berygl o glefyd deintyddol a chlefyd yn y geg. Mae pobl agored i niwed yn debygol o gynnwys y rhai nad ydynt yn gallu: cydweithredu â gofal deintyddol arferol, deall yr angen am ofal deintyddol, cynnal hylendid da yn y geg heb gymorth, a chael mynediad at wasanaethau deintyddol yn hawdd (er enghraifft, cleifion sydd angen teclyn codi i drosglwyddo i gadair y deintydd). Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cynnig amgylchedd amlddisgyblaethol a gall roi gofal holistig, ataliol a deintyddol llawn trwy ddefnydd integredig o hylenyddion a therapyddion deintyddol. Mae hyn yn rhoi cynllun gofal llawn i'r claf, wedi'i gyflwyno drwy dîm, mewn lleoliad arbenigol. Mae hyn yn lleihau anghydraddoldeb posibl mewn gofal gan y bydd eu triniaeth yn cael ei gyflwyno gan dîm.

Fodd bynnag, mae angen i'r ymgynghoriad geisio barn gweithwyr deintyddol proffesiynol am y diffiniad o anghenion uchel. Ar hyn o bryd mae prinder data i egluro sut i ddiffinio claf anghenion uchel yn effeithlon, felly er mwyn sicrhau bod pob claf yn cael cyfle cyfartal i dderbyn y gofal cywir yn y lleoliad cywir, ar yr adeg cywir, gan y tîm cywir mae angen ceisio barn y proffesiwn a'r cyhoedd yn yr ymgynghoriad.

Apwyntiadau a gollwyd (DNA)

Pan fydd cleifion yn methu â dod i apwyntiadau, ystyrir y rhain yn apwyntiadau a gollwyd (DNA). Mae'r rhain yn arwain at gostau a cholledion amser i'r practis deintyddol. Ar hyn o bryd, mae'r holl risg yn cael ei ysgwyddo gan y sawl sydd â'r contract deintyddol. Mae rhywfaint o'r risg hon yn cael ei osod ar y byrddau iechyd sy'n cymryd cyfrifoldeb am ariannu cleifion brys newydd, p'un a ydynt yn dod i apwyntiad ai peidio.

Er mwyn cefnogi practisau deintyddol i reoli apwyntiadau a gollwyd, bydd cleifion newydd a ddyrennir drwy'r Porth Mynediad Deintyddol sydd heb ddod i'w hasesiad cychwynnol ar ddau achlysur yn dychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol. Ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth barhaus, bydd methu dau apwyntiad yn olynol neu dri apwyntiad o fewn eu cynllun gofal yn arwain at eu dychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol. Bydd 50% o ffi'r pecyn gofal yn cael ei dalu am wasanaeth heb ei gyflawni'n llawn. Wrth roi cleifion yn ôl ar y Porth Mynediad Deintyddol, byddant yn cael eu rhoi ar waelod y rhestr i bob pwrpas. Mae hyn yn bwysig er mwyn gwarchod practisau deintyddol rhag y colledion ariannol sy'n deillio o golli apwyntiadau, ond hefyd o ran codi ymwybyddiaeth bod methu â mynychu apwyntiadau'n effeithio ar yr apwyntiadau sydd ar gael.

Trwy gyflwyno mesurau i reoli apwyntiadau a gollwyd, mae'r dull arfaethedig yn osgoi llenwi llefydd a fyddai'n gallu cael eu defnyddio gan eraill, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg i hybu mynediad i'r rhai sydd fwyaf angen y gwasanaethau. Mae'r cynnig yn annog mwy o ddiwylliant o atebolrwydd a pharch at adnoddau gofal iechyd, gan gyd-fynd â strategaethau atal.

Fodd bynnag, ceir ffactorau negyddol posibl sydd angen eu hystyried. Gall cleifion agored i niwed brofi rhwystrau anghymesur y tu hwnt i'w rheolaeth gan achosi iddynt

golli eu hapwyntiad. Gallai'r rhain gynnwys problemau trafnidiaeth, gwrthdaro â dyletswyddau gwaith, neu broblemau iechyd. Trwy ganiatáu nifer cyfyngedig o apwyntiadau y gellir eu colli, rydym o'r farn bod y dull arfaethedig yn cael ei ystyried yn deg ac yn gymesur.

Datganiad o Hawl Ariannol

Mae'r Datganiad o Hawl Ariannol yn darparu taliadau sy'n gysylltiedig â hynafiaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb salwch. Mae'r taliadau hyn yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar Enillion Pensiynadwy Net Cyfwerth. Mae'r contract newydd yn cynnig cyflwyno uchafswm taliad wythnosol, wedi'i gapio ar £1,660 ar gyfer perfformiwr deintyddol a £3,630.

Mae StatsCymru yn nodi bod 1,398 o Berfformwyr Deintyddol i gyd, gyda 283 (20.3%) yn gweithredu fel Darparwyr-gyflawnwyr. O'r 680 o Berfformwyr Deintyddol gwrywaidd (48.6% o'r cyfanswm), mae 196 (28.8%) yn Ddarparwyr-gyflawnwyr. Mewn cyferbyniad, o'r 718 o Berfformwyr Deintyddol benywaidd (51.4% o'r cyfanswm), dim ond 87 (12.1%) sy'n Ddarparwyr-gyflawnwyr. Gallai capiau ar Ddatganiad o Hawl Ariannol effeithio ar berfformwyr benywaidd sy'n fwy tebygol o beidio â bod mewn rolau dan gontract ac felly'n fwy agored i lai o gymorth ariannol yn ystod absenoldeb mamolaeth neu salwch. Gallai hyn arwain at oblygiadau negyddol anghymesur i gydbwysedd bywyd-gwaith menywod, ac i'w dilyniant gyrfa a chydaddoldeb cyflog rhwng y rhywiau. Ni fydd hyn, fodd bynnag, yn effeithio'n sylweddol ar y rhai sy'n ennill cyflog cyfartalog.

Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae'r contract newydd yn cynnig gwneud y ddarpariaeth ar gyfer Absenoldeb Rhiant a Rennir yn seiliedig ar gyfnodau amser a lefelau talu tâl mamolaeth yn y Datganiad o Hawl Ariannol. Mae hyn yn hybu cyfleoedd cyfartal i'r ddau riant, gan ganiatáu rhannu'r cyfrifoldeb dros ofal plant a dosrannu dyletswyddau rhianta. Gall hefyd olygu llai o'r toriadau gyrfa a brofir yn draddodiadol gan fenywod. Mae Absenoldeb Rhiant a Rennir hefyd yn helpu teuluoedd lle mae dau'n ennill cyflog drwy'r posibilrwydd o leihau'r baich ariannol sydd fel arfer yn disgyn ar fenywod wrth gymryd absenoldeb mamolaeth estynedig.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith y diwygiadau arfaethedig i'r contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ar gydraddoldeb, gan ragweld y bydd y canlyniadau i raddau helaeth yn fuddiol i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r fframwaith newydd yn adlewyrchu'r uchelgais gyffredinol a nodir o fewn *Cymru Iachach* i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a chyflawni canlyniadau iechyd mwy cyfartal, i bawb yng Nghymru. Mae'r newidiadau sylweddol hyn yn adlewyrchu mwy o ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar o fewn y gymuned, gan leihau'r risg o driniaethau cymhleth a brys. Gall hyn yn y pen draw leddfu'r pwysau ar draws y

system gofal iechyd gyfan, gan atgyfnerthu canlyniadau cydraddoldeb y tu hwnt i'r rhai a deimlir mewn gwasanaethau deintyddiaeth gofal sylfaenol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y cynnig ynghylch diwygio Deintyddol yng Nghymru yn effeithio'n negyddol ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd cwestiynau'n cael eu cynnwys yn ein Hymgyngoriad Diwygio Deintyddol lle gall ymatebwyr leisio unrhyw bryderon ynghylch effaith y cynigion ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

Bydd diwygio contractau'n llwyddiannus yn arwain at ganlyniadau iechyd teg, gwell. Yn y tymor byr, byddwn yn ystyried y gwaith yn llwyddiant os gwelwn gynnydd yn y triniaethau a roddir i gleifion. Yn y tymor hir, rydym yn gobeithio gweld gostyngiad mewn triniaethau a roddir i gleifion a fydd yn adlewyrchu llai o angen am wasanaethau deintyddol trwy atal.

Byddwn yn parhau i adolygu'r data a gasglwyd gan Raglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru i ddeall effaith y contractau newydd ar arolygu iechyd y geg ymysg oedolion a phlant ledled Cymru, gan gynnwys y bwlch rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig ar amllder a difrifoldeb pydredd dannedd.

Bydd y Pecyn Cymorth Asesu Risgiau ac Anghenion Geneuol Clinigol (ACORN)¹⁵ yn galluogi Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i ddeall risg ac anghenion cleifion unigol, ac yn y pen draw, ganlyniad y gofal y mae cleifion yn ei dderbyn. Gall hyn gynorthwyo byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau a gwerthuso effeithiolrwydd y diwygiadau ochr yn ochr â pholisïau iechyd.

¹⁵ Iechyd Cyhoeddus Cymru: Pecyn Asesu Risgiau ac Anghenion Geneuol Clinigol (ACORN), Rhagfyr 2021 primarycareone.nhs.wales/files/acorn-and-expectations/acorn-guidance-version-1-3-06-12-2021-pdf/

Cofnod o Effaith yn ôl nodwedd warchodedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut fyddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Cadarnhaol - Mae gwerthoedd uwch ar gyfer pecynnau gofal plant yn cymhell mynediad, monitro a hyrwyddo gofal ataliol. Gwell darpariaeth ar gyfer materion deintyddol cymhleth sy'n gysylltiedig ag oedran. Negyddol - Efallai na fydd costau uwch ar gyfer gofal deintyddol cynhwysfawr yn cael eu talu'n llawn gan arwain at faich ariannol uwch ar gleifion.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Llais: Profiad pobl o fynd i weld Deintydd yng Nghymru. Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolwg cyhoeddus i lywio'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru: canfyddiadau allweddol. Tachwedd 2020	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd ¹⁶ a sut y gallai eich	Cadarnhaol – Mae strwythur ffioedd y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol newydd arfaethedig yn galluogi practisau i	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y

¹⁶ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall mai nid yr amhariad sy'n golygu nad yw pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau, ond yn hytrach, y rhwystrau y maent yn eu hwynebu mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

cynnig arwain at achosi'n anfwriadol, neu fynd ati'n rhagweithiol i waredu, y rhwystrau sy'n golygu nad yw pobl gyda gwahanol fathau o amhariad yn gallu defnyddio gwasanaethau)	gynnig cwrs o driniaeth sefydlogi i'r rhai sy'n aros am atgyfeiriad i Wasanaethau Deintyddol Cymunedol, sy'n darparu gofal arbenigol i unigolion, gan gynnwys y rhai ag anableddau. Mae'r materion iechyd deintyddol uniongyrchol, yn enwedig lleddfu poen, yn paratoi cleifion ar gyfer triniaeth yn y dyfodol.	Llais: Profiad pobl o fynd i weld Deintydd yng Nghymru. Model Cymdeithasol o Anabledd Llywodraeth Cymru. Cylchlythyr Iechyd Cymru: Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed	bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	Bwriad y cynnig yw ei fod yn berthnasol yn gyfartal i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl drawsryweddol.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cadarnhaol – gwell mynediad at gleifion risg uchel, gan gynnwys pobl feichiog sydd â risg uwch o brofi problemau deintyddol	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Iechyd Cyhoeddus Cymru - Iechyd y Geg o feichiogrwydd i 5 mlwydd oed	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.

		Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr ac Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Bwriad y cynnig yw ei fod yn berthnasol yn gyfartal i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl yn seiliedig ar eu hil.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Crefydd, cred a diffyg cred	Bwriad y cynnig yw ei fod yn berthnasol yn gyfartal i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl yn seiliedig ar eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Rhyw / Rhywedd	Bwriad y cynnig yw ei fod yn berthnasol yn gyfartal i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl ar sail eu rhyw/rhywedd	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Bwriad y cynnig yw ei fod yn berthnasol yn gyfartal i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl yn	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y

	seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol	Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Priodas a phartneriaeth sifil	Cadarnhaol - Mae absenoldeb rhiant a rennir yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r ddau riant, gan ganiatáu rhannu cyfrifoldeb dros ofal plant a dyrannu dyletswyddau rhieni. Gall hefyd olygu llai o'r toriadau gyrfa a brofir yn draddodiadol gan fenywod. Mae Absenoldeb Rhiant a Rennir hefyd yn helpu teuluoedd lle mae dau'n ennill cyflog drwy'r posibilrwydd o leihau'r baich ariannol sydd fel arfer yn disgyn ar fenywod wrth gymryd absenoldeb mamolaeth estynedig.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol - Mae gwerthoedd uwch ar gyfer pecynnau gofal plant yn cymhell mynediad, monitro a hyrwyddo gofal ataliol. Gwell darpariaeth ar gyfer materion deintyddol cymhleth sy'n gysylltiedig ag oedran.	Cymru Iachach: Ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Darlun o Iechyd y Geg 2023 – Archwiliad epidemiolegol deintyddol o blant	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.

		blwyddyn ysgol un (5 oed) yng Nghymru 2022/23 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolwg cyhoeddus i lywio'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru: canfyddiadau allweddol. Tachwedd 2020	
Aelwydydd incwm isel	Cadarnhaol - Nod y model newydd yw blaenoriaethu'r rhai ag anghenion clinigol uwch. Mae aelwydydd incwm isel wedi'u heithrio rhag taliadau. Mae hyn yn cynorthwyo i hyrwyddo cydraddoldeb iechyd trwy sicrhau bod adnoddau yn seiliedig ar angen clinigol yn hytrach na'r gallu i dalu. Gall llawer o gleifion ag anghenion deintyddol cymhleth a brys dderbyn triniaeth angenrheidiol heb wynebu rhwystrau o ran y gost, lle gallant fod wedi cael eu hatal gan gyfyngiadau ariannol o ganlyniad i ddiffyg mynediad o dan y model blaenorol a'r angen posibl i	Cymru Iachach Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolwg cyhoeddus i lywio'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru: canfyddiadau allweddol. Tachwedd 2020	Nid oes angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro effaith y contract newydd yn barhaus unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym.

	ddefnyddio llwybrau preifat. Mae hyn yn hybu mwy o gydraddoldeb iechyd trwy sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn seiliedig ar angen clinigol yn hytrach na'r gallu i dalu, gan sicrhau mynediad teg i bawb.		
--	--	--	--

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut fyddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol?
	Yn ganolog i'r cynnig hwn mae gwella mynediad at Wasanaethau Deintyddol y GIG yng Nghymru i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo cydraddoldeb. Trwy roi pwyslais ar atal, mae'r cynnig yn rhagweld y bydd y canlyniadau iechyd yn gwella. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl agored i niwed a phobl â nodweddion gwarchodedig, gan felly arwain at gael	Dadansoddiad o fewn y canlynol: Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhaglen Lywodraethu 2025 - 2028	Nid oes angen lliniaru. Byddwn yn monitro gweithrediad y contract newydd am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym

	effaith gadarnhaol ar hawliau dynol.		
--	--------------------------------------	--	--

Atodiad

Atodiad A – Strwythur ffioedd cyfredol a newydd

Crynodeb o ffioedd ac eithriadau deintyddol cyfredol y GIG yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod ffioedd deintyddol y GIG yng Nghymru o dan system tri band, ynghyd â band brys ychwanegol, i adlewyrchu math a chymhlethdod y driniaeth. Gall grwpiau penodol, fel y rhai dan 18 oed, menywod beichiog, a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau cymwys, gael eu heithrio o'r taliadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth a manylion pellach am eithriadau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Band	Cwmpas y driniaeth	Cost i'r Claf
Band 1	Archwiliad, diagnosis (gan gynnwys pelydr-X), cyngor ar atal problemau, ac, os oes angen, digennu a llathru	£20
Band 2	Pob triniaeth Band 1 ynghyd â thriniaethau ychwanegol megis llenwadau, triniaethau sianel y gwreiddyn, a thynnu dannedd	£60
Band 3	Pob triniaeth Band 1 a Band 2 ynghyd â thriniaethau mwy cymhleth, fel coronau, dannedd gosod, a phontydd	£260

Eithriadau

Nid yw unigolion sy'n gymwys ar gyfer eithriadau penodol yn talu ffioedd deintyddol y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Plant dan 18 oed
- Pobl ifanc 18 oed mewn addysg amser llawn
- Menywod beichiog neu'r rhai sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 12 mis diwethaf
- Unigolion sy'n derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol cymwys neu gredydau treth

Dylai cleifion sy'n credu eu bod yn gymwys i gael eu heithrio ddangos tystiolaeth o'u hawl i'r practis deintyddol. Mae rhagor o fanylion am eithriadau a sut i hawlio cymorth i dalu costau iechyd ar gael ar wefan swyddogol Llywodraeth Cymru.

Strwythur newydd arfaethedig

O dan y diwygiadau arfaethedig, byddai'r dull Uned o Weithgaredd Deintyddol (UDA) hirsefydlog yn cael ei ddisodli gan fodel pecyn gofal. Mae'r model hwn yn nodi ffioedd penodol ar gyfer ystod o driniaethau deintyddol cyffredin yn seiliedig ar eu cymhlethdod a'r amser sydd ei angen i'w cyflawni, yn hytrach nag ar nifer y gweithgareddau yn unig.

Nodweddion allweddol y model pecyn gofal newydd

1. Graddfa Ffioedd Oedolion

- Mae cyfres o 14 pecyn gofal gwahanol yn cwmpasu popeth o ofal brys (Pecyn Gofal 1) i driniaethau adferol, therapi sianel y gwreiddyn, a chyfnodau adalw amrywiol (e.e. apwyntiadau 3, 6, 9 neu 12 mis).
- **Trothwyon triniaeth uchel eu gwerth:** Er mwyn atal gor-ddarparu'r triniaethau costus (triniaeth sianel y gwreiddyn ar ddannedd ôl – Pecyn 7, Coron/Pont – Pecyn 8), mae trothwy uchaf o 10% (o fewn y segment pecyn gofal 70% o'r contract) ar gyfer y categorïau hyn oni bai bod y Bwrdd Iechyd yn cytuno fel arall.

Pecyn Gofal	Disgrifiad	Ffi Ddiwygiedig i Oedolion
1	Brys	£75
2	Asesu Claf	£49
3	Pydredd dannedd syml	£65
4	Adferiad Estynedig	£124
5	Periodontol	£187
6	Triniaeth sianel y gwreiddyn - blaen	£164
7	Triniaeth sianel y gwreiddyn - dannedd ôl	£329
8	Coron/Pont	£253
9	Dannedd gosod	£156
10	Sefydlogi - anghenion uchel iawn	£135
11	Adalw bob 3 mis	£180
12	Adalw bob 6 mis	£90
13	Adalw bob 9 mis	£67.50
14	Adalw bob 12 mis	£45

2. Graddfa Ffioedd i Blant

- Mae gwerthoedd uwch yn berthnasol i asesiadau plant (Pecynnau 15–19) i annog practisau i dderbyn a chadw cleifion iau, gan ddarparu cymorth ataliol cynhwysfawr o oedran cynnar.
- Os oes angen triniaeth fwy helaeth ar blant, byddant yn trosglwyddo i'r categori pecyn gofal oedolion cyfatebol.

Pecyn Gofal	Disgrifiad	Ffi Ddiwygiedig i Blant
15	Asesiad Cychwynnol (O dan flwydd oed)	£80
16	Asesiad Cychwynnol (1–4 oed)	£75
17	Asesiad Cychwynnol (5–12 oed)	£70
18	Asesiad Cychwynnol (13–17 oed)	£60
19	Adalw bob 6 mis	£110

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol i gleifion

O dan y model pecyn gofal newydd, byddai taliadau am bob cwrs o driniaeth y GIG yn cael eu gosod ar 60–70% o gyfanswm cost y pecyn, yn hytrach na chael eu rhannu i'r system Band 1–3 bresennol. Mae hyn yn cyfateb i gyfraniad is nag mewn ardaloedd eraill o'r DU - er enghraifft, mae cleifion yn yr Alban yn gyffredinol yn talu tua 80%. Byddai unrhyw waith labordy ychwanegol (e.e. coronau, pontydd, neu ddannedd gosod) yn destun ffi ar wahân ond wedi'i gapio, gan sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag costau ychwanegol gormodol.

Mae'n bwysig nodi bod y newidiadau hyn yn symud y ffocws tuag at atal problemau iechyd y geg cyn iddynt ddod yn ddifrifol. Rhaid i ddeintyddion ddarparu ystod eang o ofal ataliol a rheolaidd, yn hytrach na buddsoddi'n rhy drwm mewn triniaethau cost uchel. Ar gyfer unigolion sydd angen triniaethau mwy cymhleth neu frys, bydd llwybr atgyfeirio pwrpasol yn sicrhau eu bod yn derbyn y lefel angenrheidiol o ofal arbenigol mewn da bryd. Yn y cyfamser, bydd system dalu ar-lein sy'n cael ei rhedeg gan y NHSBSA yn symleiddio bilio ac yn tynnu'r baich gweinyddol o adennill dyledion oddi ar bractisau lleol, gan wneud taith y claf yn symlach ac yn fwy tryloyw.

Atodiad B Diagram Llif Cleifion Newydd Arfaethedig

Mae'r diagram isod yn dangos llwybr cleifion newydd o dan y model newydd arfaethedig.

